## DINESYDD DYFEISGAR

### Pwy ydych chi
*Rydych chi'n mwynhau cynhyrchu ac ailddefnyddio nwyddau trwy fanteisio ar gyfleusterau sy'n cynnig lle, offer a chymorth a thrwy fireinio eich galluoedd o ganlyniad i rwydweithio a throsglwyddo gwybodaeth.*

### Yr hyn rydych chi'n ei wneud
*Rydych chi'n ymwneud â newid ffyrdd o gynhyrchu a defnyddio nwyddau trwy eu dylunio, eu cynhyrchu a'u trwsio eich hun gyda chymorth cyfleusterau a rhwydweithiau cyfnewid gwybodaeth.*

## CERDYN ADNABOD DINESYDD

### Eich anawsterau
*A chithau'n cynnig gwasanaethau, gallai fod angen arallgyfeirio trwy lunio model busnes cynaladwy fel na fydd rhaid dibynnu ar gymorth allanol. Dylech chi feithrin partneriaethau lleol a lledaenu profiad trwy'r byd.*

### Eich effaith
*Byddwch chi'n effeithio ar yr amgylchedd trefol trwy arbed deunyddiau; ar gylchoedd cymdeithasol trwy ymgysylltu dinesig, meithrin medrau a chynhwysiant cymdeithasol; ar economi'r fro trwy arbed arian a chreu swyddi.*

## DINESYDD DYSG

### Pwy ydych chi
*Rydych chi'n mwynhau hel a lledaenu data i ddysgu rhagor a deall materion amgylcheddol a chymdeithasol yn well mewn pynciau sydd o ddiddordeb ichi er mwyn codi ymwybyddiaeth ac ymgyrchu dros newidiadau cynaladwyedd.*

### Yr hyn rydych chi'n ei wneud
*Byddwch chi'n ymwneud â mentrau megis gwyddoniaeth dinasyddion a phrosiectau siopau gwyddoniaeth mae dinasyddion yn eu harwain neu eu hyrwyddo gyda chymorth sefydliadau lle mae pobl yn helpu i feithrin gwybodaeth trwy hel a lledaenu data.*

## CERDYN ADNABOD DINESYDD

### Eich anawsterau
*Gallai fod angen denu pobl o sawl lliw a llun, ystyried agweddau cymdeithasol a thechnegol cynaladwyedd fel gilydd a lleddfu tyndra gyda gwyddonwyr academaidd traddodiadol.*

### Eich effaith
*Byddwch chi'n effeithio ar yr amgylchedd trwy gynnig gwybodaeth a thystiolaeth am faterion amgylcheddol a chymdeithasol ac ar gylchoedd cymdeithasol trwy ymgysylltu dinesig, ennyn diddordeb a chodi ymwybyddiaeth ynghylch cynaladwyedd.*

## DINESYDD DIWASTRAFF

### Pwy ydych chi
*Rydych chi'n mwynhau ffyrdd cynaladwy o fyw gan anelu at hyrwyddo newidiadau yn yr arferion cynhyrchu a defnyddio mae cwmnïau lleol yn eu hybu ynghylch nwyddau a bwyd.*

### Yr hyn rydych chi'n ei wneud
*Byddwch chi'n hyrwyddo patrymau amgen trwy gynhyrchu neu ddefnyddio bwyd a nwyddau yn ogystal â chynnig neu ddefnyddio gwasanaethau sy'n arbed adnoddau a gwastraff ynghylch cynhyrchu a defnyddio.*

## CERDYN ADNABOD DINESYDD

### Eich anawsterau
*Gallai fod angen sefydlu partneriaethau a rhwydweithiau cadwyni cyflenwi sefydlog i ddatblygu modelau busnes cynaladwy. Dylech chi feithrin medrau, cyfnewid gwybodaeth a chwilio am gymorth strwythurol ac ariannol.*

### Eich effaith
*Byddwch chi'n effeithio ar yr amgylchedd trefol trwy ddefnyddio adnoddau'n well ac arbed gwastraff; ar gylchoedd cymdeithasol trwy hybu medrau, cynhwysiant cymdeithasol a hunanddibyniaeth, ar yr economi leol trwy greu swyddi.*

## DINESYDD DEFNYDDIOL

### Pwy ydych chi
*Rydych chi'n mwynhau rhentu a rhoi ar osod nwyddau, lleoedd a cherbydau fel na fyddan nhw'n segur, gan godi eu gwerth wrth ymdopi â chostau byw cynyddol.*

### Yr hyn rydych chi'n ei wneud
*Byddwch chi'n arddel arferion defnyddio darbodus sy'n eich galluogi i ddiwallu'ch anghenion o ran nwyddau, lleoedd a chludiant heb fod yn berchen arnyn nhw - a hynny trwy wasanaethau gosod a rhentu.*

## CERDYN ADNABOD DINESYDD

### Eich anawsterau
*A chithau'n fenthyciwr, gallai fod angen meithrin hygrededd a phrynu yswiriant. A chithau'n cynnig gwasanaethau, gallai fod angen isadeiledd, cymorth, medrau adeiladu a model busnes cynaladwy.*

### Eich effaith
*Byddwch chi'n effeithio ar yr amgylchedd trefol trwy arbed gwastraff a lleddfu'r galw am ddeunyddiau crai, ac ar gyllid personol trwy arbedion ac elw o ganlyniad i rentu neu osod.*

A4

# TAFLEN ADNABOD DINESYDD

Hawlfraint © Prifysgol Caerdydd 2021

## ARGRAFFU A CHWARAE

*Mae rhagor o wybodaeth ar:*
*www.cardiff.ac.uk/research/explore/find-a-project/view/circubed*

*Mae'r prosiect hwn yn gweithredu o dan nawdd rhaglen ymchwil ac arloesi Horizon 2020 Undeb Ewrop yn ôl amodau grant Marie Skłodowska-Curie (cytundeb 793021).*

*Torrwch y llinell ddotiog yn ofalus.*
*Mae modd ailgylchu'r cerdyn hwn ar ôl ei lenwi.*

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

## DINESYDD CYDWEITHREDOL

### Pwy ydych chi
*Rydych chi'n mwynhau cydweithio mewn prosiectau hirdymor gyda phobl o'r un meddwl ynghylch arferion cynhyrchu a defnyddio amgen er cyfundrefnau adeiladu a bwyd ac ar eu traws.*

### Yr hyn rydych chi'n ei wneud
*Rydych chi'n gweithio mewn grwpiau anffurfiol neu fudiadau di-elw i roi arferion amgen ar waith, lledaenu gwybodaeth, adnoddau a medrau a chodi ymwybyddiaeth.*

## CERDYN ADNABOD DINESYDD

### Eich anawsterau
*Gallai fod angen medrau adeiladu arnoch chi yn ogystal â chyngor ar gydlynu, datblygu a chynnal busnes. Dylech chi ofyn am gymorth ariannol a strwythurol sefydliadau trwy roi tystiolaeth fesuradwy o'ch effaith.*

### Eich effaith
*Byddwch chi'n effeithio ar yr amgylchedd trefol trwy arbed gwastraff o ganlyniad i arferion cynhyrchu a defnyddio amgen ac ar gylchoedd cymdeithasol trwy feithrin medrau, cydlyniant cymunedol ac ymdeimlad o berchnogaeth.*

## DINESYDD STRATEGOL

### Pwy ydych chi
*Rydych chi'n mwynhau cydweithio mewn grŵp a fydd ar waith dros gyfnod byr yn ôl egwyddorion a phryderon sy'n gyffredin ynghylch materion amgylcheddol a chymdeithasol (megis defnyddio tir cyhoeddus) a diffygion gwladol yn yr amgylchedd adeiledig.*

### Yr hyn rydych chi'n ei wneud
*Byddwch chi'n ymwneud â phrosiectau dros dro sydd wedi'u sefydlu a'u cynnal ar y cyd a'u hyrwyddo gan hwyluswyr i ymateb i faterion cymunedol, codi ymwybyddiaeth a hybu ffyrdd amgen o ddefnyddio adnoddau.*

## CERDYN ADNABOD DINESYDD

### Eich anawsterau
*Gallai fod angen ichi gynllunio ar gyfer hyfywedd ariannol prosiectau a fydd ar waith yn aml, a gofyn am gymorth hwyluswyr i rwydweithio. Dylech chi ofyn i sefydliadau lleol eich helpu i roi prosiectau ar waith.*

### Eich effaith
*Byddwch chi'n effeithio ar yr amgylchedd trefol gan ddylanwadu ar faes cynllunio dinasoedd a grwpiau cymdeithasol trwy hybu grwpiau materion cymunedol gan feithrin eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth.*

## DINESYDD DYRANNU

### Pwy ydych chi
*Rydych chi'n mwynhau disodli patrymau defnyddio cyfredol trwy ledaenu a chyfnewid arferion mewn grwpiau i arbed adnoddau.*

### Yr hyn rydych chi'n ei wneud
*Byddwch chi'n cydweithio i ddiwallu anghenion cymunedol gan rannu adnoddau megis nwyddau a gwybodaeth trwy gyfleusterau (gwasanaethau, gwefannau a rhwydweithiau) ar gyfer cynhyrchu, adeiladu a theithio.*

## CERDYN ADNABOD DINESYDD

### Eich anawsterau
*A chithau'n cynnig gwasanaethau, gallai fod angen meithrin medrau sefydlu a rheoli gwasanaeth. Dylech chi chwilio am gymorth ariannol i'w ddatblygu. A chithau'n gyflenwr mewn gwasanaeth, gallai fod angen meithrin hygrededd ac ymddiried.*

### Eich effaith
*Byddwch chi'n effeithio ar yr amgylchedd trefol trwy arbed gwastraff ac adnoddau; ar gylchoedd cymdeithasol trwy gynnwys y gymuned leol; ar eich cyllid personol trwy arbed arian a lle.*

TEULUOEDD CYLCHOL

CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL

TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL
TEULUOEDD CYLCHOL
CYMRYD
GWNEUD
DEFNYDDIO
ADENNILL